

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

Enw'r Polisi/Policy Name: **Cod Dinasyddiaeth sy'n ymgorffori Disgyblu Myfyrwyr**  
Cod dogfen/Document code (os yn berthnasol/if applicable)

**Adran/Department:** Gwasanaethau Myfyrwyr

**Awdur y Ddogfen/Document Author:** Joe Baldwin

**Teitl Swydd/Job Title:** Pennaeth Cynorthwyol Taith y Dysgwyr

**Dyddiad Cymeradwyaeth/Date of Approval:** Tachwedd 2019


**Dyddiad Adolygu/Review Date:** Tachwedd 2021

**Coleg Penybont**  
yn swyddogol

**Bridgend College**  
officially announced

**Rhagorol Excellent**

Byddwch yn bopeth y gallwch fod.  
Be all that you can be.



# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy

### Cynnwys

1.0	Pwrpas ac Amcanion	3
2.0	Manylion y Polisi	3
3.0	Cyfrinachedd	4
4.0	Radicalaiddio ac Eithafiaeth	4
5.0	Bwlio ac Aflonyddu	4
6.0	Cod Dinasyddiaeth	5
7.0	Cydnabyddiaeth (Nodiadau Cadarnhaol a Gwobrau Myfyrwyr)	6
8.0	Y Broses Ddisgyblu	7
8.1	Cofnodion Problemau	7
8.2	Cam Un: ArDrywydd	7
8.3	Cam Dau: Cynllun Gweithredu	7
8.4	Cam Tri: Cytundeb Dysgu	8
8.5	Cam Pedwar: Terfynol	9
9.0	Argymhellion ar gyfer Gwaharddiad	10
10.0	Gwaharddiad	11
11.0	Apelio yn erbyn Gwaharddiad	11
12.0	Myfyrwyr wedi eu Gwahardd sydd am ail-gynnig i Goleg Penybont	11
13.0	Ataliad tra'n Disgwyl Cyfweliad	11
14.0	Myfyrwyr wedi eu Gwahardd	12
15.0	Troseddau	12
16.0	Dogfennau Cysylltiedig	13
17.0	Adolygiad y Ddogfen	13
18.0	Atodiad 1: Llif Disgyblu	14

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

19.0	Atodiad 2: Enghraifft o Gynllun ArDrywydd	15
20.0	Asesiad Effaith ar y Gymraeg	16

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy

### 1. Pwrpas ac Amcanion:

Mae Coleg Penybont yn gwbl ymrwymedig i les myfyrwyr, staff, ymwelwyr, a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Coleg yn weithredol yn hyrwyddo lles cadarnhaol y staff a'r myfyrwyr i gyd, gan gynnwys oedolion bregus a'r rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n disgwyl i'r holl aelodau staff, gwirfoddolwyr a phartneriaid, gan gynnwys cyflogwyr cysylltiedig a darparwyr lleoliadau gwaith, gefnogi ac arddangos yr ymrwymiad hwn ar bob adeg.

Mae Coleg Penybont yn cydnabod ei gyfrifoldeb dros ddatblygu myfyrwyr mewn ffyrdd a fydd yn meithrin diogelwch, hyder, ac annibyniaeth, gan alluogi myfyrwyr i fod yn bopeth y gallant fod. Rydym yn cydnabod bod amgylchedd gweithio a Choleg diogel a sicr yn ganolog i les pob myfyriwr, ac mae Cod Dinasyddiaeth y Coleg yn ganolog i alluogi hyn, gan gefnogi ein tri disgwyliad ymddygiad:

- Bod yn Barod
- Bod yn Barchus
- Bod yn Ddiogel

Mae'r disgwyliadau ymddygiad hyn yn cefnogi'r cyfrifoldebau sefydliadol sydd gennym o dan y Ddyletswydd Atal i hyrwyddo pum Gwerth Prydeinig:

1. Democratiaeth
2. Rheol y Gyfraith
3. Rhyddid Personol
4. Cyd-barch
5. Goddefgarwch

Mae'r Cod Dinasyddiaeth hwn, sy'n ymgorffori ein hagwedd tuag at ddisgyblu myfyrwyr, yn nodi'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan *bob* myfyriwr sy'n dewis cofrestru yng Ngholeg Penybont (llawn amser, rhan amser, addysg uwch, a dysgu cymunedol) neu yn unrhyw un o'i is-gwmnïau cysylltiedig neu sefydliadau partner.

Pan amheuir camymddygiad academiaidd myfyriwr addysg uwch, bydd y polisi perthnasol yn cael ei gymhwyso a'i gynnal. Pan fod materion disgyblu yn ymwneud â myfyriwr sydd wedi cofrestru ar lwybr cyn-16 (e.e. Prentisiaethau Iau, Uned Cyfeirio Disgyblion, ac EOTAS), gall bolisi'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol perthnasol ddisodli'r polisi hwn.

### 2. Manylion Polisi:

Nod y polisi hwn yw sicrhau ymagwedd ragweithiol a chadarnhaol tuag at y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r naw nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf, a'n dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth allweddol eraill gan gynnwys 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008', 'Canllawiau Amddiffyn Oedolion 2010', 'Canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel dogfen rif 158/2015' a 'Chanllawiau Dyletswydd Atal 2015'.

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar bob un o safleoedd y Coleg ac i bob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r Coleg, ar neu oddi ar y safle, megis cludiant i'r Coleg ac adref a drefnir gan y Coleg, ymweliadau, teithiau astudio, a phreswylfeydd (DU neu dramor).

Mae'r polisi hwn yn cydnabod, lle mae'n ymddangos bod presenoldeb, perfformiad, neu ymddygiad myfyriwr yn arwydd o broblem iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, salwch neu anaf, efallai y byddai'n fwy priodol dilyn y gweithdrefnau a nodir yng ngweithdrefn 'Addasrwydd i Astudio' y Coleg.

Mae'r polisi hwn yn cynnwys ein disgwyliadau sy'n ymwneud â phresenoldeb, ymddygiad ac ymarweddiad myfyrwyr.

### 3. Cyfrinachedd

Nid yw'r ddyletswydd cyfrinachedd yn absoliwt, a gellir ei dorri os yw er lles y myfyriwr neu'r cyhoedd ehangach. Os yw gweithwyr proffesiynol yn barnu bod angen datgelu gwybodaeth er mwyn amddiffyn myfyriwr neu eraill rhag perygl difrifol o niwed, efallai y torrir cyfrinachedd.

Rhaid i staff beidio â datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud â myfyrwyr, eu lles, neu eu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd penodol i wneud hynny gan yr Uwch Berson Dynodedig (DSP) neu'r Rheolwr Diogelu a Lles Dynodedig. Mae'r amod hwn yn cynnwys sefyllfaoedd lle fydd aelod staff yn derbyn cais am wybodaeth gan riant, gwarcheidwad, neu o'r heddlu. Mae'n rhaid i'r heddlu ddarparu Ffurflen Gais Data Personol i'r coleg sydd wedi'i llenwi gan Dditectif Arolygydd.

Mae amserlenni cadw data a pholisïau data sy'n ymwneud â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ar gael ar wefan y Coleg, a gellir gwneud cais amdanynt yn ysgrifenedig i Swyddog Diogelu Data (DPO) y Coleg.

### 4. Radicaleiddio ac Eithafiaeth

Mae'r coleg yn ceisio amddiffyn ei fyfyrwyr rhag negeseuon eithafiaeth dreisgar, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y rheiny sy'n gysylltiedig ag ideoleg Islamaidd, mudiadau'r dde eithafol, a mudiadau hawliau anifeiliaid eithafol.

Bydd unrhyw ymddygiadau a gweithredoedd a ystyrir i fod yn eithafol neu'n radical eu natur yn cael eu trin yn unol â pholisi diogelu'r coleg, sydd ar gael ar wefan y Coleg.

### 5. Bwlio ac Aflonyddu

Diffinnir bwlio fel camddefnyddio pŵer neu ddylanwad yn fwriadol, a gall gymryd sawl ffurf. Mewn sefyllfa lle nad oes bwriad penodol i achosi niwed, gellir o hyd ei ystyried yn bwlio os yw'r dioddefwr yn teimlo fel yna y mae. Mae bwlio yn cynnwys gweithredoedd corfforol, ar lafar, emosiynol, rhywiol, homoffobig, hiliol, ar-lein, troseddau casineb neu rhai sy'n seiliedig ar grefydd.

### 6. Digwyddiadau y Tu Fas i'r Coleg

Os yw achos sydd yn digwydd y tu fas i'r coleg (naill ai oddi ar y campws neu'r tu fas i oriau'r coleg) yn dwyn anfri ar enw da'r coleg, byddwn yn cymryd camau yn unol â'r polisi hwn.

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

## 7. Cod Dinasyddiaeth

### *Byddwch yn Bopeth y Gallwch Fod trwy fod yn Barod, yn Barchus, ac yn Ddiogel*

#### Parod

- Byddwch yn brydlon
- Cymerwch ran ym mhob gweithgaredd dysgu a chyfoethogi a amserlennir a threfnir
- Dewch â'r offer a'r Offer Diogelwch Personol angenrheidiol gyda chi
- Adroddwch unrhyw absenoldebau i'r Coleg trwy ffonio 01656 302 302 dewis 2

#### Parchus

- Parchwch fyfyrwyr eraill, staff, ac ymwelwyr
- Parchwch eich amgylcheddau dysgu
- Parchwch eraill, beth bynnag eu rhyw, rhywioldeb, anabledd, oedran, crefydd, cred, neu hil
- Ysmygwch neu defnyddiwch e-sigarét yn y manau dynodedig yn unig

#### Diogel

- Gwisgwch eich cortyn gwddf a'ch bathodyn adnabod pa le bynnag yr ydych yn y Coleg
- Dilynwch gyfarwyddiadau iechyd, diogelwch a thân wrth ddefnyddio offer ac wrth symud o amgylch y Coleg
- Adroddwch unrhyw bryderon sydd gennych ynglŷn â'ch diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall i aelod staff neu'r Tîm Lles.
- Dilynwch bolisi Defnydd Derbyniol Rhwydwaith y Coleg, gan gynnwys diogelwch ar-lein, defnyddio rhwydweithiau diwifr, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol (gan gynnwys camgyfleu'r Coleg neu fwlio)

Weithiau, nid yw ymddygiadau yn cydymffurfio â'n Cod Dinasyddiaeth, sef bod yn barod, yn barchus ac yn ddiogel.

Mae enghreifftiau o ymddygiadau a gweithgareddau o'r fath yn cynnwys:

- Gweithgaredd troseddol a chamddefnyddio sylweddau (lladrad, twyll, difrod troseddol, ymosodiad, meddu neu gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon / penfeddwol cyfreithlon, cario arfau ymosodol)
- Eithafiaeth (naill ai'n dreisgar neu'n ddi-drais), a allai gynnwys terfysgiaeth neu weithredoedd sy'n peryglu eraill (o dan y Ddeddf Terfysgaeth 2000)

#### Dim Goddefgarwch

Cofiwch eich bod yn llysgennad i'r Coleg. Mae hyn yn cynnwys wrth i chi fynd a dod i'r campysau a phan ydych yn mynd ar deithiau gyda'r Coleg neu'n gwneud gweithgareddau gyda'ch cwrs. Mae llofnodi ein Cod Dinasyddiaeth yn golygu eich bod chi'n deall ac yn cytuno i dangos yr ymddygiadau hyn ar bob adeg.

## 8. Cydnabyddiaeth (Nodiadau Cadarnhaol a Gwobrau Myfyrwyr)

Rydym am i fyfyrwyr ffynnu a chyflawni eu potensial mewn addysg ac mewn bywyd. Rydym yn ymrwymedig i gyflwyno cyfleoedd dysgu a chyfoethogi rhagorol sy'n gwella profiad ein myfyrwyr ac sy'n darparu llwyfan sy'n eu galluogi i ragori a chyflawni. Gellir rhoi Nodiadau Cadarnhaol ar ffurf cardiau corfforol ac ar ffurf cofnodion ar MiHub.

Anogir pob aelod staff i roi Nodiadau Cadarnhaol lle mae myfyrwyr yn dangos rhagoriaeth o ran eu hagwedd, eu gwaith, neu eu cyflawniadau dysgu. Mae ein seremoni Gwobrau Myfyrwyr blynyddol hefyd yn gyfle gwych i gydnabod cyflawniadau eithriadol gan fyfyrwyr.

## 9. Y Broses Ddisgyblu

Mae gan bob myfyriwr yr hawl i ofyn am gyfarfodydd a chyfathrebiadau cysylltiedig yn y Gymraeg neu'r Saesneg, yn ysgrifenedig neu ar lafar, yn ddi-oed.

Byddwn bob amser yn ymdrechu i ddefnyddio dulliau adferol i gefnogi myfyrio a dysgu lle bo'n briodol.

### 9.1 Cofnodion Problemau

Mae cofnodi problemau yn ddull y gall tiwtoriaid personol / darlithwyr ei ddefnyddio er mwyn cofnodi unrhyw broblemau parhaus sy'n codi gyda myfyriwr y maen nhw'n credu eu bod yn gymwys i'w cofnodi ar MiHub.

Gall aelod staff gofnodi hyd at dri chofnod problem; bydd y trydydd cofnod problem o fewn chwe wythnos yn achosi cynnydd i'r Cynllun ArDrywydd Cam Un gyda thiwtor personol y myfyriwr.

Nid oes hawl apelio yn erbyn Cofnodion Problemau.

### 9.2 Cam Un (ArDrywydd)

**Perchennog y Broses:** Tiwtor Personol

9.2.1 Lle codir tri Chofnod Problem ac fe'u cofnodir ar MiHub, cynhelir cyfarfod cynllunio ArDrywydd rhwng y myfyriwr a'r tiwtor personol.

9.2.2 Bydd cynllun ArDrywydd yn cael ei gynhyrchu ar y cyd, a chytunir ar ganlyniadau gyda therfynau amser. Bydd y myfyriwr a'r tiwtor personol yn llofnodi hwn, a bydd copi yn cael ei lwytho ar MiHub.

9.2.3 Rhaid derbyn y cynllun gweithredu o fewn pythefnos wedi dyddiad y cyfarfod ArDrywydd Cam Un. Gellir gweld cynllun ArDrywydd enghreifftiol yn atodiad 2.

9.2.4 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y pwynt hwn.

### 9.3 Cam Dau (Cynllun Gweithredu)

**Perchennog y Broses:** Arweinydd Maes Cwricwlwm (AMC) – Taith y Dysgwyr

9.3.1 Ar Gam Dau, bydd yr AMC ar gyfer Taith y Dysgwyr yn trefnu cyfweiliad gyda'r myfyriwr er mwyn asesu/nodi/trafod unrhyw broblemau a godwyd yn ystod y broses ddisgyblu hyd yn hyn.

9.3.2 Ystyrir pob agwedd ar ymddygiad y myfyriwr er mwyn cyfansoddi cynllun gweithredu cefnogaeth manwl er mwyn rhoi'r dysgwr yn ôl ar y trywydd i gyflawni ei gymhwyster. Rhaid i gynllun gweithredu'r dysgwr gynnwys targedau adeiladol a chadarnhaol er mwyn



# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy

hyrwyddo cynllun dysgu gweithredol a chyraeddadwy ar gyfer y dysgwr. Dylid ystyried gwasanaethau cymorth ychwanegol, gan gynnwys y Tîm Lles, y Tîm Cymorth Dysgu Ychwanegol, a'r Hyfforddwy Sgiliau.

- 9.3.3 Rhaid cofnodi canlyniadau cyfarfodydd a'r cynllun gweithredu ar MiHub, a rhaid rhoi gwybod am y cynllun gweithredu i'r tîm addysgu sy'n gysylltiedig â'r myfyriwr.
- 9.3.4 Mewn achosion lle y tybir ei bod yn briodol, gall yr AMC ar gyfer Taith y Dysgwyr lleihau neu gynyddu cam y cyfweiliad disgyblaeth yn ôl y dystiolaeth a ddarperir. Dogfennir hyn ar MiHub.
- 9.3.5 Dylid cynnal cyfarfod i adolygu'r cynllun gweithredu rhwng y myfyriwr a'r AMC ar gyfer Taith y Dysgwyr bythefnos ar ôl y cyfarfod Cam Dau, a dylid cofnodi hyn, ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu eraill, ar MiHub. Mae gan diwtoriaid personol a staff darparu cwricwlwm eraill gyfrifoldeb dros annog myfyrwyr i ymgysylltu â'u cynlluniau gweithredu.
- 9.3.6 Os na chyflawnwyd y camau gweithredu, neu os yw ymddygiadau'n parhau i ddirywio i lefelau is na'r disgwyl, dylid trefnu ail ddyddiad adolygu ynghyd ag unrhyw ymyriadau neu gefnogaeth ychwanegol sydd eu hangen.
- 9.3.7 Bydd methu â chyflawni camau gweithredu yn dilyn yr ail gyfarfod adolygu yn arwain at gynydd i Gam Tri y broses ddisgyblu.
- 9.3.8 Os yw'r dysgwr yn euog o unrhyw helyntion pellach, mwy difrifol yn dilyn gweithrediad y cynllun gweithredu hwn, a ystyrir yn gamymddygiad neu'n gamymddygiad dybryd, dylid cynyddu hyn i'r cam priodol yn unol â difrifoldeb y sefyllfa.
- 9.3.9 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y pwynt hwn.

### 9.4 Cam Tri (Cytundeb Dysgu)

#### **Perchennog y Broses:** Rheolwr y Cwricwlwm

- 9.4.1 Pan mae presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad dysgwr yn fwy difrifol ei natur, neu os nad yw'r presenoldeb, perfformiad neu ymddygiad wedi gwella wedi dau ymyriad Cam Dau, bydd rhaid i'r myfyriwr fynychu cyfweiliad Cam Tri gyda Rheolwr y Cwricwlwm.
- 9.4.2 Bydd Gweinyddwyr Maes Cwricwlwm yn cynorthwyo i gydlynu cyfarfod i gynnwys rhieni/gofalwyr.
- 9.4.3 Anfonir llythyr at y myfyriwr yn amlinellu'r pryderon ac yn pwysleisio hawl y myfyriwr i ddod â rhywun i'r cyfweiliad yn gwmni iddynt; cadarnhad o amser a lleoliad y cyfweiliad; a datganiad yn esbonio, os nad yw'r myfyriwr yn mynychu neu os nad yw dyddiad arall yn cael ei drefnu, mae'r Rheolwyr Maes Cwricwlwm yn cadw'r hawl i aildrefnu'r cyfarfod, heb fawr ddim rhybudd, i amser sy'n gyfleus iddo.

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy

- 9.4.4 Bydd hawl gan y myfyriwr i ddod â chyfoed, cynrychiolydd myfyrwyr, aelod teulu, neu berson priodol arall (mewn achosion o oedolion bregus) yn gwmni iddo (ond nid cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall oni bai bod y Coleg yn cytuno i hyn). Caniateir cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall os yw'r Coleg yn bwriadu cael cynghorydd allanol yn bresennol.
- 9.4.5 Yn y cyfweiliad, bydd gan y myfyriwr hawl i ddatgan ei achos, gan gynnwys unrhyw ffactorau esgusodol, cyn y gwneir unrhyw benderfyniad a/neu llunnir unrhyw gynllun gweithredu.
- 9.4.6 Os yw'r myfyriwr yn anghytuno â'r dystiolaeth, gall Rheolwr y Cwricwlwm ohirio'r cyfweiliad er mwyn ymchwilio'r hyn sy'n ddadleuol a cheisio dod o hyd i dystiolaeth briodol bellach. Bydd y cyfweiliad yn cael ei ailgynnull cyn pen 10 diwrnod gwaith.
- 9.4.7 Os yw presenoldeb, perfformiad, neu ymddygiad y myfyriwr yn ymddangos eu bod yn arwydd o broblem iechyd meddwl, salwch, neu anaf, efallai y byddai'n fwy priodol dilyn y gweithdrefnau a nodir yng ngweithdrefn 'Addaswydd i Astudio' y Coleg. Yn ogystal, gellir gohirio'r cyfweiliad er mwyn penderfynu ar gamau gweithredol ar gyfer y dyfodol.
- 9.4.8 Bydd Rheolwr y Cwricwlwm yn llunio cynllun gweithredu sy'n rhaid cynnwys targedau adeiladol a chadarnhaol er mwyn hyrwyddo cynllun gweithio sy'n weithredol ac yn gyraeddadwy i'r myfyriwr. Rhaid i'r myfyriwr a Rheolwr y Cwricwlwm lofnodi copi o'r cynllun gweithredu, a'i lwytho ar MiHub.
- 9.4.9 Os yw'r dysgwr yn bodloni'r safonau/targedau gofynnol ac yn dangos gwelliant, gellir eu tynnu o'r broses ddisgyblu.
- 9.4.10 Os yw'r dysgwr yn euog o unrhyw helyntion pellach, mwy difrifol, yn dilyn gweithrediad y cynllun gweithredu hwn, a ystyrir yn gamymddygiad neu'n gamymddygiad dybryd, dylid cynyddu hyn i'r cam priodol yn unol â difrifoldeb y sefyllfa.
- 9.4.11 Nid oes modd gwneud apêl ffurfiol ar y pwynt hwn.

## 9.5 Cam Pedwar (Terfynol)

### Perchennog y Broses: Pennaeth y Cwricwlwm

- 9.5.1 Os yw'r presenoldeb, perfformiad, neu'r ymddygiad y cwynir amdano yn fwy difrifol ei natur neu'n gamymddygiad dybryd, neu os nad yw'r presenoldeb, perfformiad, neu'r ymddygiad wedi gwella er gwaethaf ymyriadau Cam Tri, bydd rhaid i'r myfyriwr fynychu cyfweiliad disgyblaethol Cam Pedwar gyda Phennaeth y Cwricwlwm a Rheolwr y Cwricwlwm.
- 9.5.2 Bydd Gweinyddwyr Maes Cwricwlwm yn cydlynu gohebiaeth.
- 9.5.3 Bydd amlinelliad o'r camymddygiad dybryd yn cael ei gynnwys yng nghynnwys y llythyr ynghyd â sylw am hawl y myfyriwr i ddod â rhywun i'r cyfweiliad yn gwmni iddynt;

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy

cadarnhad o amser a lleoliad y cyfweiliad; a datganiad yn esbonio, os nad yw'r myfyriwr yn mynychu neu os nad yw dyddiad arall yn cael ei drefnu, mae Pennaeth y Cwricwlwm yn cadw'r hawl i aildrefnu'r cyfarfod, heb fawr ddim rhybudd, i amser sy'n gyfleus iddo.

- 9.5.4 Os yw dysgwr o dan 18 oed, mae hawl ganddo i ddod ag un cynrychiolydd i'r cyfarfod. Gallai hwn fod yn rhiant neu'n warcheidwad.
- 9.5.5 Ni ddisgwylir cyrraedd canlyniad neu benderfyniad terfynol yn ystod y cyfarfod. Yn hytrach, pwrpas y cyfarfod yw rhoi cyfle i'r dysgwr i gyflwyno ei achos ac egluro ffeithiau. Bydd canlyniadau a phenderfyniadau terfynol yn cael eu cyfathrebu'n ysgrifenedig o fewn 7 diwrnod gwaith (ar gyfer apeliadau, gweler paragraff 8.5.11).
- 9.5.6 Mewn rhai sefyllfaoedd, efallai bydd Pennaeth y Cwricwlwm yn barnu ei fod yn briodol cynyddu neu leihau'r achos yn ôl y dystiolaeth a natur unigol yr achos. Bydd hyn yn cael ei ddogfennu ar MiHub.
- 9.5.7 Mewn rhai achosion, lle nad yw camau disgyblu yn angenrheidiol, bydd y Coleg yn ystyried bod yr achos ynghau.
- 9.5.8 Mewn achosion lle rhoddir rhybudd ysgrifenedig terfynol, bydd y rhybudd yn nodi y gall unrhyw bresenoldeb, perfformiad neu ymddygiad gwael bellach gan y myfyriwr arwain at waharddiad y myfyriwr o'r Coleg.
- 9.5.9 Mewn achosion difrifol o bresenoldeb, perfformiad neu ymddygiad gwael, gan gynnwys camymddygiad mynych neu gamymddygiad dybryd, gall Pennaeth y Cwricwlwm roi Rhybudd Terfynol ynghyd â chynllun gweithredu ysgrifenedig.
- 9.5.10 Mewn achosion lle rhoddir Rhybudd Terfynol neu os gosodir cynllun gweithredu ar waith (gyda neu heb waharddiad), rhoddir i'r myfyriwr dyddiad ac amser y bydd ei gynnydd yn cael ei adolygu. Bydd unrhyw gamau a gymerir yn dilyn yr adolygiad yn briodol i Gam Dau y broses ddisgyblu.
- 9.5.11 Mae gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu i Bennaeth y Cwricwlwm cyn pen 7 diwrnod gwaith wedi dyddiad y llythyr canlyniad. Dylid cyflwyno apeliadau trwy'r post neu e-bost, a'u cyfeirio at y Dirprwy Bennaeth.
- 9.5.12 Os ystyrir ymddygiad y myfyriwr yn annerbyniol gan y Coleg, gall Pennaeth y Cwricwlwm argymhell gwaharddiad i'r Dirprwy Bennaeth.
- 9.5.13 Dylid cofnodi'r cyfarfod hwn a'r canlyniadau dilynol ar MiHub.

## 10 Argymhelliad ar gyfer Gwaharddiad

Bydd y Dirprwy Bennaeth yn ystyried y dogfennau a gyflwynir gan Bennaeth y Cwricwlwm a'r rhesymau dros yr argymhelliad.

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

Gall y Dirprwy Bennaeth benderfynu peidio â chefnogi'r Argymhelliad ar gyfer Gwaharddiad, a phenderfynu nad oes angen unrhyw gamau disgyblu pellach.

Gall y Dirprwy Bennaeth argymhell y dylid gweithredu cosbau gwahanol sy'n fwy priodol.

Gall y Dirprwy Bennaeth benderfynu cefnogi'r Argymhelliad ar gyfer Gwaharddiad. Hysbysir y myfyriwr cyn pen 10 diwrnod wedi dyddiad y llythyr canlyniad sy'n argymhell gwaharddiad.

Mae gan y myfyriwr yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad trwy ysgrifennu i'r Pennaeth cyn pen 21 diwrnod wedi dyddiad y llythyr gwahardd.

## 11 Gwaharddiad

Gall cyfnod gwaharddiad, a benderfynir gan y Dirprwy Bennaeth, fod hyd at 3 mis neu am gyfnod rhwng 3 mis a 5 mlynedd o hyd. Ac eithrio amgylchiadau eithriadol, ni fydd unrhyw waharddiad am gyfnod hirach na 5 mlynedd o hyd.

Yn ystod unrhyw gyfnod o waharddiad, ni all unrhyw fyfyrwr sydd wedi'u gwahardd dychwelyd i'r Coleg heb ganiatâd blaenorol y Dirprwy Bennaeth neu'r person y bydd yn trefnu goruchwyliaeth berthnasol.

Gall unrhyw fyfyrwr sydd wedi eu gwahardd ofyn i'r Coleg ystyried diddymu'r gwaharddiad trwy ysgrifennu at y Dirprwy Bennaeth. Ni fydd y ffeithiau ynghylch y cyfarfod gwreiddiol ar gael i'w hail-ystyried, a bydd y cais yn cael ei drin trwy Weithdrefnau Derbyn y Coleg, a'n cael ei benderfynu gan y Pennaeth.

## 12 Apelio yn erbyn Gwaharddiad

Gwneir unrhyw apêl yn erbyn gwaharddiad myfyriwr i'r Pennaeth, a fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r holl ddogfennaeth a oedd wedi arwain at yr argymhelliad.

Bydd y Pennaeth yn ystyried y ddogfennaeth ac a yw'r gweithdrefnau yn y Polisi Disgyblu Myfyrrwr wedi cael eu dilyn.

Bydd y Pennaeth yn penderfynu os dylid cynnal y Gwaharddiad ynteu beidio, ac yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am y penderfyniad cyn pen 21 diwrnod wedi dyddiad y llythyr gwahardd.

Mae penderfyniad y Pennaeth yn derfynol ac nid oes gan y myfyriwr yr hawl i'w apelio.

### 13 Myfyrwyr wedi eu Gwahardd sydd am ail-gynnig i Goleg Penybont

Os yw myfyrwyr sydd wedi cael eu gwahardd yn flaenorol yn dymuno dychwelyd i'r Coleg, rhaid iddynt wneud cais i'r Pennaeth a'r Prif Weithredwr. Bydd penderfyniad y Pennaeth a'r Prif Weithredwr yn derfynol. Bydd cofnodion perthnasol yn cael eu diweddarau'n barhaus mewn achosion myfyrwyr sydd wedi'u gwahardd.

### 14 Ataliad tra'n Disgwyl Cyfweliad

- 14.1 Gall aelod o'r Uwch Dîm Rheoli atal myfyriwr o'r Coleg yn syth, hyd nes cynhelir cyfweliad disgyblu, os oes gan yr aelod staff hwnnw reswm dros gredu bod y myfyriwr wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn dybryd neu esgeulustod dybryd a allai arwain at amharu ar ddarpariaeth amcanion gweithredol y Coleg.
- 14.2 Gall ataliad oherwydd gweithred o gamymddwyn dybryd neu esgeulustod dybryd arwain at gyfweliad Cam Pedwar a allai arwain at naill ai: dim camau pellach; argymhelliad am gosb amgen; neu argymhelliad ar gyfer gwaharddiad.
- 14.3 Bydd ataliad oherwydd gweithred o gamymddwyn dybryd neu esgeulustod dybryd yn disodli unrhyw weithredoedd disgyblu eraill y gall fyfyriwr fod ynghlwm iddynt.
- 14.4 Cadarnheir unrhyw ataliad o'r fath yn ysgrifenedig gan y Cyfarwyddwr annibynnol (cyn pen 7 diwrnod gwaith wedi'r digwyddiad).
- 14.5 Ni ddylai ataliad bara'n hirach na 10 diwrnod gwaith heb i'r ataliad gael ei ddiddymu neu heb i ddyddiad ar gyfer cyfweliad gael ei osod.
- 14.6 Os yw ataliad yn para'n hirach na 10 diwrnod gwaith, bydd hawl gan y myfyriwr i apelio yn erbyn yr ataliad trwy ysgrifennu at y Dirprwy Bennaeth.
- 14.7 O fewn 7 diwrnod gwaith, bydd y Dirprwy Bennaeth yn trefnu i'r apêl gael ei glywed gan aelod o Uwch Dîm Rheoli'r Coleg nad yw eisoes wedi bod yn rhan o'r mater disgyblu hwn.
- 14.8 Bydd hawl gan y myfyriwr i ddod â chyfoed, cynrychiolydd myfyrwyr, aelod teulu, neu berson priodol arall (mewn achosion o oedolion bregus) yn gwmni iddo (ond nid cynghorydd cyfreithiol neu gynghorydd proffesiynol arall oni bai bod y Coleg yn cytuno i hyn).
- 14.9 Bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu o ganlyniad yr apêl cyn gynted â phosib, a chyn pen 5 diwrnod gwaith ym mhob achos. Nid oes modd apelio yn erbyn y canlyniad hwn ymhellach.

## 15 Myfyrwyr wedi eu Gwahardd

Rhoddir ystyriaeth briodol cyn penderfynu a ganiateir i fyfyrwyr sydd wedi'u gwahardd fynychu arholiadau allanol neu asesiadau mewnol angenrheidiol ai peidio. Mewn achosion lle caniateir iddynt fynychu, bydd unrhyw fyfyrwyr sydd wedi eu gwahardd yn cael eu hebrwng gan aelod o'r staff cefnogi, a byddant fel arfer yn sefyll yr arholiad neu'r asesiad ar wahanân i'r myfyrwyr eraill.

## 16 Troseddau

Os oes gan unrhyw aelod staff reswm dros gredu y gallai myfyriwr fod wedi troseddu, gallai'r Coleg gyfeirio'r mater at yr heddlu, a gallai barhau i weithredu'r broses ddisgyblu o dan y weithdrefn hon neu wahardd y myfyriwr tra'n disgwyl canlyniad ymholiadau'r heddlu ac unrhyw gyhuddiadau yn erbyn y myfyriwr. Os yw'r myfyriwr wedi cael ei wahardd o dan y weithdrefn hon, unwaith y bydd canlyniadau'r ymholiadau ac unrhyw weithrediadau cyfreithiol yn hysbys, mae'r Coleg yn cadw'r hawl i ailgychwyn y broses ddisgyblu o dan y weithdrefn hon mewn perthynas â'r mater. Bydd tystysgrif gollfarn oddi wrth lys sydd ag awdurdodaeth gymwys yn dystiolaeth bendant o'r gollfarn honno.

Bydd unrhyw gamau disgyblu sy'n ymwneud â throseddau honedig yn seiliedig ar gred ddiffuant yr aelod staff sy'n cymryd y camau ar ôl ymchwiliad mewnol, ac ni fydd rhaid bod collfarn gyda'r myfyriwr er mwyn i'r camau disgyblu cael eu gweithredu. Mewn perthynas â gweithredu'r weithdrefn hon, pwysleisir nid yw'r Coleg yn rhwym i ganlyniadau unrhyw weithrediadau cyfreithiol yn erbyn myfyrwyr.

Os oes gan y Coleg reswm dros gredu bod myfyriwr wedi gwneud cais llwyddiannus i'r Coleg ond wedi methu â datgelu collfarn droseddol, mae'n cadw'r hawl i gymryd camau disgyblu, gan gynnwys tynnu cynnig am le ar gwrs os ystyrir yn briodol ar gyfer diogelwch a lles yr unigolyn, y boblogaeth myfyrwyr ehangach, a staff y Coleg.

## 17 Dogfennau Cysylltiedig

- Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus
- Polisi Derbyn Myfyrwyr

## 18 Adolygiad y Ddogfen

Adolygir y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn flynyddol, er eu diweddarau'n unol â chyhoeddiad unrhyw ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol.

## Atodiad 1: Llif Disgyblu

Fel rheol, bydd myfyrwyr yn symud trwy'r camau yn gynyddrannol, i fyny ac i lawr y camau disgyblaeth. Er hyn, os tybir bod angen ymyriad ar radd uwch er mwyn ymdrin ag ymddygiad neu weithrediad (e.e. camymddygiad dybryd), gall myfyrwyr ddechrau'r broses ddisgyblu ar unrhyw lefel.

Cofnod Problem 1		Cofnod Problem 2		Cofnod Problem 3	
▼▼▼ 3 Cofnod Problem o fewn chwe wythnos > symud i Gam Un ▼▼▼					
Pobl	Camau	Cyfathrebu	Camau Dilynol	Enghreifftiau	
▼ Cam Un: Cynllun ArDrywydd ▼					
<b>Arweinydd:</b> Tiwtor Personol  Myfyrwr	Creu cynllun ArDrywydd yn seiliedig ar y cofnodion problemau ac yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)  Mynediad at ymyriad ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr)	Cofnodi ar MiHub  Hysbysu Rhiant/Gofalwr trwy alwad ffôn neu e-bost gan y Tiwtor Personol  Cyfathrebu Cynllun ArDrywydd i dîm y cwricwlwm gan y Tiwtor Personol	Adolygu'r cynllun ArDrywydd pythefnos ar ôl y cyfarfod cam un. Os yw problemau yn parhau, symud ymlaen at gam 2.  Os nad oes problemau pellach, symud yn ôl o gam 1 ar ddiwedd y tymor.		
▼ ▼ Cam Dau: Cynllun Gweithredu ▼ ▼					
<b>Arweinydd:</b> AMC Taith y Dysgwyr  Myfyrwr Tiwtor Personol Rhiant/Gofalwr	Creu cynllun gweithredu yn seiliedig ar y Cynllun ArDrywydd blaenorol neu ar sail resymegol ar gyfer cyfarfod Cam Dau, ac yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)  Mynediad at ymyriad ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr)	Cofnodi ar MiHub  Hysbysu Rhiant/Gofalwr trwy alwad ffôn neu e-bost gan AMC Taith y Dysgwyr  Cyfathrebu Cynllun Gweithredu i dîm y cwricwlwm gan AMC Taith y Dysgwyr	Adolygu'r cynllun gweithredu pythefnos ar ôl y cyfarfod cam dau, ac ail gyfarfod adolygu pythefnos ar ôl yr un cyntaf.  Os yw problemau yn parhau, symud ymlaen at gam 3.	Ni chyflawnir cynllun gweithredu cam 1 85% presenoldeb Fandaleiddio eiddo'r coleg Camymddygiad corfforol/emosiynol Llên-ladrad Achosion pellach o broblemau cam 1	
▼ ▼ ▼ Cam Tri: Cytundeb Dysgu ▼ ▼ ▼					
<b>Arweinydd:</b> Rheolwr y Cwricwlwm  AMC Taith y Dysgwr Myfyrwr Rhiant/Gofalwr	Cyflwyno Cytundeb Dysgu er mwyn mynd i'r afael ag ardaloedd sy'n peri pryder, gyda disgwyliadau clir sy'n gysylltiedig ag ymddygiad sydd angen ei newid, ac yn canolbwyntio ar ddisgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel)  Mynediad at ymyriad ehangach (e.e. Tîm Lles, Hyfforddwyr Sgiliau, Cymorth Dysgu Ychwanegol, Gwasanaethau Myfyrwyr)	Cofnodi ar MiHub  Hysbysu Rhiant/Gofalwr a'u gwahodd i fynychu cyfarfod  Cyfathrebu Cytundeb Dysgu i dîm y cwricwlwm gan Reolwr y Cwricwlwm	Cyfarfod adolygu wythnosol gyda'r Tiwtor Personol, gyda chyfarfod adolygu gyda Rheolwr y Cwricwlwm ar ôl 6 wythnos.	Gwrthdaro corfforol. Bwlio neu aflonyddu ar unrhyw ffurf (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ac ar-lein). Ymddygiad aflonyddgar gormodol. Gweithredoedd a dybir sy'n peri perygl sylweddol i'r myfyrwr neu i eraill.	
▼ ▼ ▼ ▼ Cam Pedwar: Terfynol ▼ ▼ ▼ ▼					
<b>Arweinydd:</b> Pennaeth y Cwricwlwm  Rheolwr y Cwricwlwm Myfyrwr Rhiant/Gofalwr	Cyflwyno rhybudd ysgrifenedig terfynol yn amlinellu sut mae'r ymddygiad wedi anufuddhau i'n disgwyliadau ymddygiad (Parod / Parchus / Diogel).  Gallai fod dyletswydd arnom i roi gwybod i'r heddlu neu awdurdodau eraill ar yr adeg hon.	Cofnodi ar MiHub  Hysbysu Rhiant/Gofalwr a'u gwahodd i fynychu cyfarfod  Anfon rhybudd ysgrifenedig i'r myfyrwr a llwytho copi ar MiHub		Lladrad. Targedu grwpiau neu unigolion yn gyferbyniol i'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Mae hyn yn cynnwys defnyddio iaith neu ymddwyn yn rhywiaethol, hiliol, homoffbig, neu wrth-grefyddol. Gweithredoedd sy'n peri perygl sylweddol i'r myfyrwr neu i eraill. Meddu ar arf.	

## Atodiad 2: Enghraifft o Gynllun ArDrywydd

<b>Enw'r Myfyriwr</b>	Jasmine French	<b>ID y Myfyriwr</b>	86429
<b>Dyddiad Cyfarfod ArDrywydd</b>	18.11.17	<b>Hwylusydd</b>	James Godfrey

### Crynodeb o'r Draffodaeth (gan gynnwys nodi sut mae ymddygiad yn cysylltu â'n disgwyliadau: Parod / Parchus / Diogel)

Problemau Allweddol: Dwyt ti ddim yn dangos dy fod ti'n **barod** i ddysgu gan mai 89% yw dy bresenoldeb ar hyn o bryd, ac rydym yn pryderu dros dy hwyrni. Dwyt ti ddim yn dangos **parch** tuag at eraill pan rwyd ti'n defnyddio iaith amhriodol.

Fe wnaethom ni drafod rheswm Jasmine dros ei habsenoldeb, sef heriau ac amgylchiadau personol yn ei bywyd yn y cartref. Mae hyn wedi rhwystro Jasmine rhag derbyn ei lwfans cynhaliaeth addysgol, sydd wedi arwain ati'n cael trafferth talu am y bus, gan orfodi iddi gerdded i'r Coleg sawl bore, ac achosi iddi fod yn hwyr i'r sesiwn gyntaf.

Mae Jasmine yn teimlo ei bod hi wedi gorlethu gan beth o'r gwaith, ac mae hyn yn cael ei gynhlethu bellach wrth iddi gollu rhannau o wersi naill ai drwy fod yn hwyr neu drwy fod yn absennol. Dyma ble mae Jasmine yn adnabod bod ei hiaith yn annerbyniol ac yn amhriodol.

Mae'n rhaid i mi...	Pobl y bydd angen i mi gael cefnogaeth oddi wrthynt...	Nodiadau adolygu
Cwrdd â'r Tîm Lles yn y sesiynau 'galw-heibio' wythnosol er mwyn i mi allu trafod sut ydw i'n teimlo ac er mwyn i'r Tîm Lles monitro sut mae pethau i mi yn y cartref.	Tîm Lles	
Bydd James yn siarad â Gwasanaethau Myfyrrwyr er mwyn trefnu cymeradwyaeth ar gyfer lwfans cynhaliaeth addysgol felly bod gen i arian i dalu am y bus, a bydd hyn yn fy ngalluogi i fod yn brydlon.	Gwasanaethau Myfyrrwyr / James	
Byddaf yn mynychu sesiynau ychwanegol gyda'r Hyfforddwr Sgiliau er mwyn i mi allu dal i fynd gyda'r gwaith trafferthus a chael mynediad i'r cymorth sydd angen arnaf.	Hyfforddwr Sgiliau	

<b>Llofnod y Myfyriwr</b>	J. French	<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	J. Gofrey
<b>Dyddiad yr Adolygiad 1<sup>af</sup></b>	03.12.17	<b>Amser yr Adolygiad</b>	11:00
<b>Llofnod y Myfyriwr</b>		<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	
<b>Dyddiad yr 2<sup>il</sup> Adolygiad</b>		<b>Amser yr Adolygiad</b>	
<b>Llofnod y Myfyriwr</b>		<b>Llofnod yr Hwylusydd</b>	

### Nodiadau Ychwanegol / Casgliad

Rhaid sganio copi a'i llwytho ar MiHub



# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy

## Asesiad Effaith Iaith Gymraeg / Welsh Language Impact Assessment

<b>Enw Polisi / Gweithdrefn Name of Policy / Procedure</b>	Cod Dinasyddiaeth sy'n ymgorffori Disgyblu Myfyrwyr					
<b>Perchennog Polisi Policy Owner (to complete this EIA)</b>	Joe Baldwin					
<b>Nod(au'r) a Pwrpas y Polisi Aim(s) and Purpose of Policy</b>	Disgwyliadau Ymddygiad					
<b>I bwy mae'r polisi hwn yn effeithio? Who does the policy affect?</b>	<b>Dysgwyr Learners</b>	✓	<b>Staff</b>	✓	<b>Cyhoedd / General Public</b>	

## Safonau Iaith Gymraeg / Welsh Language Standards

<b>Rhif/ No.</b>	<b>Math/ Type</b>	<b>Safon / Standard</b>	<b>Cadarnhaol (gallai fod o fudd)  Positive (could benefit)</b>	<b>Negyddol (gallai effeithio)  Negative (could impact)</b>	<b>Dim Effaith  No Impact</b>
94	Safonau Llunio Polisi  Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider what effects, if any (whether positive or adverse), the policy decision would have on — (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓

95	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision would have positive effects, or increased positive effects, on —  (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and  (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>		✓	
96	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—  (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a  (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you formulate a new policy, or review or revise an existing policy, you must consider how the policy could be formulated (or how an existing policy could be changed) so that the policy decision would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —  (a) opportunities for persons to use the Welsh language, and  (b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓

97	Safonau Llunio Polisi  Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>When you publish a consultation document which relates to a policy decision, the document must consider, and seek views on, the effects (whether positive or adverse) that the policy decision under consideration would have on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓
98	Safonau Llunio Polisi  Policy Making standards	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would have positive effects, or increased positive effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>	✓		

99	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you publish a consultation document which relates to a policy decision the document must consider, and seek views on, how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>	✓		
101	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers what effects, if any (and whether positive or adverse), the policy decision under consideration would have on—</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓

102	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would have a positive effects, or so that it would have increased positive effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓
103	<p>Safonau Llunio Polisi</p> <p>Policy Making standards</p>	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid i chi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellir gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p> <p>When you commission or undertake research that is intended to assist you to make a policy decision, you must ensure that the research considers how the policy decision under consideration could be made so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on —</p> <p>(a) opportunities for persons to use the Welsh language, and</p> <p>(b) treating the Welsh language no less favourably than the English language.</p>			✓

## Cynllun Gweithredu / Action Plan

Dylai camau gweithredu ddangos camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg.

Actions should demonstrate steps to be taken to reduce or where possible, eliminate any negative impact on the Welsh Language

<b>Gweithredu/ Action</b>	<b>Pwy/ Who</b>	<b>Erbyn Pryd/ By When</b>	<b>Mesur Llwyddiant/ <i>(sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)</i></b>  <b>Success Measure</b> <i>(how will we know we have achieved the action)</i>
Standard 96	Sam Gunnarsson	Publication Date	Ensure that disclosure document is available in Welsh
Standard 98 and 99	Joe Baldwin	30 day consultation	All staff will have a 30 day period to offer insight and advice on any amendments to the policy to support Welsh language users.

**Dyddiad Cwblhau Aseu / Assessment Completion Date:** 26 Mehefin 2018